OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1417 (Cy. 141)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

## Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2015

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio offerynnau statudol penodol yn ymwneud â gwastraff peryglus, sy'n cyfeirio at Reoliadau'r Rhestr Wastraffoedd (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1820 (Cy. 148)) ("Rheoliadau'r Rhestr Wastraffoedd"), neu ddeddfiadau'r Undeb Ewropeaidd sy'n ymwneud â gwastraff peryglus.

Mae angen y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn er mwyn—

gweithredu Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 1357/2014 (OJ Rhif L 365, 19.12.14, t.89), sy'n diwygio Cyfarwyddeb 2008/98/EC (OJ Rhif L 312, 22.11.2008, t.3) ("y Gyfarwyddeb Wastraff");

gweithredu Penderfyniad y Comisiwn 2014/955/EU (OJ Rhif L 370, 30.12.2014, t.44), sy'n diwygio Penderfyniad y Comisiwn 2000/532/EC (OJ Rhif L 226, 6.9.00, t.3) ("Penderfyniad y Rhestr Wastraffoedd");

cydnabod y ffaith bod Cyfarwyddeb 2002/96/EC (OJ L 37, 13.2.2003, t.24) ar Gyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff ("y Gyfarwyddeb CTEG") wedi ei hail-lunio fel Cyfarwyddeb 2012/19/EU (OJ Rhif L 197, 24.7.2012, t.38);

cydnabod newidiadau mewn terminoleg a wnaed gan Reoliad (EC) Rhif 1272/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor, ar ddosbarthu, labelu a phecynnu sylweddau a chymysgeddau (OJ Rhif L 353, 31.12.2008, t.1) ("y Rheoliad DLPh").

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2015 No. 1417 (W. 141)

# ENVIRONMENTAL PROTECTION, WALES

## The Hazardous Waste (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2015

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations amend certain statutory instruments concerned with hazardous waste, which refer to the List of Wastes (Wales) Regulations 2005 (S.I. 2005/1820 (W. 148))("the List of Wastes Regulations"), or to European Union enactments concerning hazardous waste.

The amendments made by these Regulations are necessary in order to—

implement Commission Regulation (EU) No 1357/2014 (OJ No L 365, 19.12.14, p. 89), which amends Directive 2008/98/EC (OJ No L 312, 22.11.2008, p. 3) ("the Waste Directive");

implement Commission Decision 2014/955/EU (OJ No L 370, 30.12.2014, p. 44), which amends Commission Decision 2000/532/EC (OJ No L 226, 6.9.00, p. 3) ("the List of Wastes Decision");

recognise the recasting of Directive 2002/96/EC (OJ L 37, 13.2.2003, p.24) on Waste Electrical and Electronic Equipment ("the WEEE Directive"), as Directive 2012/19/EU (OJ No L 197, 24.7.2012, p 38);

recognise changes in terminology made by Regulation (EC) No 1272/2008 of the European Parliament and of the Council, on classification, labelling and packaging of substances and mixtures (OJ No L 353, 31.12.2008, p.1) ("the CLP Regulation").

At ddiben gweithredu Penderfyniad diwygiedig y Rhestr Wastraffoedd, mae Rheoliadau'r Rhestr Wastraffoedd wedi eu dirymu. Pan fo cyfeiriadau at y Rheoliadau hynny yn codi yn yr offerynnau y mae'r Rheoliadau hyn yn eu diwygio, rhoddir cyfeiriad at Benderfyniad y Rhestr Wastraffoedd ei hun, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd, yn eu lle.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004 (O.S. 2004/1490 (Cy. 155)) drwy roi cyfeiriad at Benderfyniad y Rhestr Wastraffoedd yn lle'r cyfeiriadau at Reoliadau'r Rhestr Wastraffoedd.

Mae rheoliad 3 a'r Atodlen yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1806 (Cy. 138))("y Rheoliadau Gwastraff Peryglus").

Mae rheoliad 3(2) yn amnewid y diffiniad o'r Gyfarwyddeb Wastraff sydd yn rheoliad 2 o'r Rheoliadau Gwastraff Peryglus.

Mae rheoliad 3(3) yn diwygio'r diffiniad o Atodiad III i'r Gyfarwyddeb Wastraff yn rheoliad 3(a) drwy hepgor y cyfeiriad at Atodlen 3 i'r Rheoliadau hynny, a hepgorir Atodlen 3 i'r Rheoliadau hynny ei hunan yn rhinwedd rheoliad 3(8).

Mae rheoliad 3(4) yn amnewid y diffiniad o'r Rhestr Wastraffoedd sydd yn rheoliad 4(1). Mae'r diffiniad newydd yn cyfeirio'n uniongyrchol at Benderfyniad y Rhestr Wastraffoedd fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

Mae paragraffau (5), (6)(a) a (7)(a) o reoliad 3 yn cywiro cyfeiriad at adran 62A o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (p.43).

Mae rheoliad 3(6)(b) yn rhoi cyfeiriad at Erthygl 7(2) o'r Gyfarwyddeb Wastraff yn lle cyfeiriad at Erthygl 3 o Benderfyniad y Rhestr Wastraffoedd.

Mae rheoliad 3(7)(b) yn rhoi cyfeiriad at Erthygl 7(3) o'r Gyfarwyddeb Wastraff yn lle cyfeiriad at Erthygl 3 o Benderfyniad y Rhestr Wastraffoedd.

Mae rheoliad 3(9) a'r Atodlen yn amnewid Atodlen 8 newydd.

Mae rheoliad 4 yn diwygio Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 (O.S. 2010/675) ("RhTA 2010").

Mae paragraffau (2), (5)(b) a (7) o reoliad 4, yn diweddaru cyfeiriadau at Erthyglau penodol yn y Gyfarwyddeb CTEG er mwyn cysoni'r cyfeiriadau hynny â'r darpariaethau cyfatebol yn y Gyfarwyddeb a ail-luniwyd.

For the purpose of implementing the amended List of Wastes Decision, the List of Wastes Regulations are revoked. References to those Regulations, where they occur in the instruments amended by these Regulations, are substituted with a reference to the List of Wastes Decision itself, as amended from time to time.

Regulation 2 of these Regulations amends the Landfill Allowances Scheme (Wales) Regulations 2004 (S.I. 2004/1490 (W. 155)) by substituting, for references to the List of Wastes Regulations, a reference to the List of Wastes Decision.

Regulation 3 and the Schedule make amendments to the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005 (S.I.2005/1806 (W. 138))("the Hazardous Waste Regulations").

Regulation 3(2) substitutes the definition of the Waste Directive in regulation 2 of the Hazardous Waste Regulations.

Regulation 3(3) amends the definition of Annex III to the Waste Directive in regulation 3(a) by omitting the reference to Schedule 3 to those Regulations, and Schedule 3 to those Regulations is itself omitted by virtue of regulation 3(8).

Regulation 3(4) substitutes the definition of the List of Wastes in regulation 4(1). The new definition refers directly to the List of Wastes Decision as amended from time to time.

Paragraphs (5), (6)(a) and (7)(a) of regulation 3 correct a reference to section 62A of the Environmental Protection Act 1990 (c.43).

Regulation 3(6)(b) substitutes for a reference to Article 3 of the List of Wastes Decision, a reference to Article 7(2) of the Waste Directive.

Regulation 3(7)(b) substitutes for a reference to Article 3 of the List of Wastes Decision, a reference to Article 7(3) of the Waste Directive.

Regulation 3(9) and the Schedule substitute a new Schedule 8.

Regulation 4 amends the Environmental Permitting (England and Wales) Regulations 2010 (S.I. 2010/675)("the EPR 2010").

Paragraphs (2), (5)(b) and (7) of regulation 4, update references to certain Articles in the WEEE Directive in order to align those references to the equivalent provisions in the recast Directive.

Mae rheoliad 4(3)(a) yn amnewid cyfeiriad at y Gyfarwyddeb Wastraff. Er cysondeb â darpariaethau perthnasol eraill, nid yw'r ddarpariaeth a amnewidir yn cyfeirio'n benodol at Reoliad diwygio EU Rhif 1357/2014. Effaith adran 20A o Ddeddf Dehongli 1978 (p.30)("Deddf 1978"), fodd bynnag, yw pan fo Deddf sydd wedi ei phasio ar ôl dyddiad cychwyn yr adran honno yn cyfeirio at offeryn yr Undeb Ewropeaidd, fod y cyfeiriad, oni amlygir bwriad i'r gwrthwyneb, yn gyfeiriad at yr offeryn fel y'i diwygiwyd ar y dyddiad y daw'r Ddeddf honno i rym. Mae adran 23(1) o Ddeddf 1978 hefyd yn cymhwyso'r egwyddor honno i is-ddeddfwriaeth. O ganlyniad, effaith yr amnewidiad a wneir gan reoliad 4(3)(a) yw bod cyfeiriadau at y Gyfarwyddeb Wastraff yn RhTA 2010 yn dod yn gyfeiriadau at y Gyfarwyddeb honno fel y'i diwygiwyd ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

Mae rheoliad 4(3)(b) yn rhoi, yn lle'r cyfeiriad at y Gyfarwyddeb CTEG, gyfeiriad at y Gyfarwyddeb honno fel y'i hail-luniwyd.

Mae rheoliad 4(4) yn mewnosod cyfeiriad at Benderfyniad y Rhestr Wastraffoedd fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd, yn Atodlen 3 o RhTA 2010, drwy roi, yn lle cyfeiriadau at Reoliadau'r Rhestr Wastraff, gyfeiriad at y Penderfyniad hwnnw.

Mae paragraffau (5) a (6) o Reoliad 4 yn rhoi cyfeiriadau at "hazardous substances" yn lle amryw o gyfeiriadau at "dangerous substances", er mwyn cysoni'r darpariaethau â'r derminoleg a ddefnyddiwyd yn y Rheoliad DLPh.

Mae rheoliad 5 yn diwygio Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011 (O.S. 2011/988) drwy fewnosod cyfeiriad at Benderfyniad y Rhestr Wastraffoedd fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd, a rhoi, yn lle cyfeiriadau at Reoliadau'r Rhestr Wastraffoedd, gyfeiriadau at y Penderfyniad hwnnw.

Mae rheoliad 6 yn diwygio Rheoliadau Gwastraff a Reolir (Cymru a Lloegr) 2012 (O.S. 2012/811), drwy roi cyfeiriad at Benderfyniad y Rhestr Wastraffoedd yn lle'r cyfeiriad at Reoliadau'r Rhestr Wastraffoedd yn y diffiniad o "offensive waste".

Mae rheoliad 7 yn dirymu Rheoliadau'r Rhestr Wastraffoedd (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1820 (Cy.148)) a rheoliad 4 o Reoliadau Gwastraff (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2011 (O.S. 2011/971 (Cy.141)).

Ni wnaed asesiad effaith ar gyfer yr offeryn hwn, oherwydd na ragwelir unrhyw effaith ar fusnesau.

Regulation 4(3)(a) substitutes a reference to the Waste Directive. For the purpose of consistency with other relevant provisions, the substituted provision does not refer expressly to the amending Regulation EU No 1357/2014. But the effect of section 20A of the Interpretation Act 1978 (c.30)("the 1978 Act"), is that where an Act passed after the commencement of that section refers to a European Union instrument, unless a contrary intention appears, the reference is to the instrument as amended at the date the Act comes into force. Section 23(1) of the 1978 Act applies that principle also in relation to secondary legislation. Accordingly, the substitution made by regulation 4(3)(a) has the effect that references to the Waste Directive in the EPR 2010 become references to that Directive as amended at the date on which these Regulations come into force.

Regulation 4(3)(b) substitutes, for the reference to the WEEE Directive, a reference to that Directive as recast.

Regulation 4(4) inserts a reference to the List of Wastes Decision as amended from time to time, in Schedule 3 of the EPR 2010, substituting references to the List of Wastes Regulations, with a reference to that Decision.

Paragraphs (5) and (6) of Regulation 4, substitute for various references to "dangerous substances", references to "hazardous substances", in order to align the provisions with the terminology used in the CLP Regulation.

Regulation 5 amends the Waste (England and Wales) Regulations 2011 (S.I. 2011/988) by inserting a reference to the List of Wastes Decision as amended from time to time, and substituting, for references to the List of Wastes Regulations, references to that Decision.

Regulation 6 amends the Controlled Waste (England and Wales) Regulations 2012 (S.I. 2012/811), by substituting, for the reference to the List of Wastes Regulations in the definition of "offensive waste", a reference to the List of Wastes Decision.

Regulation 7 revokes the List of Wastes (Wales) Regulations 2005 (S.I. 2005/1820 (W. 148)) and regulation 4 of the Waste (Miscellaneous Provisions) (Wales) Regulations 2011 (S.I. 2011/971 (W. 141)).

No impact assessment has been undertaken for this instrument because no impact on business is foreseen.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1417 (Cy. 141)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

## Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2015

*Gwnaed* *24 Mehefin 2015*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *26 Mehefin 2015*

*Yn dod i rym* *20 Gorffennaf 2015*

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r canlynol, yn unol ag adran 2(4) o Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999(**1**) ("DARhLl 1999")—

(a) Corff Adnoddau Naturiol Cymru;

(b) y cyrff neu'r personau hynny yr ymddengys iddynt eu bod yn cynrychioli buddiannau llywodraeth leol, diwydiant, amaethyddiaeth a busnesau bach, yn eu trefn, sy'n briodol yn eu tyb hwy; a

(c) y cyrff neu'r personau eraill hynny sy'n briodol yn eu tyb hwy.

Mae Gweinidogion Cymru hefyd wedi ymgynghori â'r canlynol, yn unol ag adran 27(2) a (4) o Ddeddf Gwastraff a Masnachu Allyriadau 2003(**2**) ("DGMA 2003")—

(a) y cyrff neu'r personau hynny yr ymddengys iddynt eu bod yn cynrychioli buddiannau awdurdodau gwaredu gwastraff yn eu hardaloedd sy'n briodol yn eu tyb hwy;

(b) y cyrff neu'r personau hynny yr ymddengys iddynt eu bod yn cynrychioli buddiannau personau sy'n ymwneud â gweithredu safleoedd tirlenwi yn eu hardaloedd sy'n briodol yn eu tyb hwy; a

(**1**) 1999 p.24.
(**2**) 2003 p.33.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2015 No. 1417 (W. 141)

# ENVIRONMENTAL PROTECTION, WALES

## The Hazardous Waste (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2015

*Made* *24 June 2015*

*Laid before the National Assembly for Wales* *26 June 2015*

*Coming into force* *20 July 2015*

The Welsh Ministers have, in accordance with section 2(4) of the Pollution Prevention and Control Act 1999(**1**) ("the PPCA1999") consulted—

(a) the Natural Resources Body for Wales;

(b) such bodies or persons appearing to them to be representative of the interests of local government, industry, agriculture and small businesses respectively as they consider appropriate; and

(c) such other bodies or persons as they consider appropriate.

The Welsh Ministers have also, in accordance with section 27(2) and (4) of the Waste and Emissions Trading Act 2003(**2**) ("the WETA 2003") consulted—

(a) such bodies or persons appearing to them to be representative of the interests of waste disposal authorities in their area as they consider appropriate;

(b) such bodies or persons appearing to them to be representative of the interests of persons concerned in the operation of landfills in their area as they consider appropriate; and

(**1**) 1999 c. 24.
(**2**) 2003 c. 33.

(c) y cyrff neu'r personau hynny yr ymddengys iddynt eu bod yn cynrychioli unrhyw bersonau eraill yr effeithir arnynt sy'n briodol yn eu tyb hwy.

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**)("DCE 1972") mewn perthynas â mesurau ynghylch atal, lleihau a dileu llygredd a achosir gan wastraff(**3**) ac atal, lleihau a rheoli gwastraff(**4**).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o DCE 1972, ac ymddengys i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i gyfeiriadau at Benderfyniad y Comisiwn 2000/532/EC(**5**), y cyfeirir ato yn rheoliadau 2(2), 3(4), 4(4)(a), 5(2) a 6, gael eu dehongli fel cyfeiriadau at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2(2) o DCE 1972, a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi, adran 75(8) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(**6**), adran 2 o DARhLl 1999, ac Atodlen 1 iddi, ac adrannau 11, 12 a 13 o DGMA 2003.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2015.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 20 Gorffennaf 2015.

(c) such bodies or persons appearing to them to be representative of any other affected persons as they consider appropriate.

The Welsh Ministers are designated(**1**) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(**2**)("the ECA 1972") in relation to measures relating to the prevention, reduction and elimination of pollution caused by waste(**3**) and the prevention, reduction and management of waste(**4**).

These Regulations make provision for a purpose mentioned in section 2(2) of the ECA 1972, and it appears to the Welsh Ministers that it is expedient for references to Commission Decision 2000/532/EC(**5**), referred to in regulations 2(2), 3(4), 4(4)(a), 5(2) and 6, to be construed as references to that instrument as amended from time to time.

The Welsh Ministers make these Regulations in exercise of the powers conferred by section 2(2) of and paragraph 1A of Schedule 2 to the ECA 1972, section 75(8) of the Environmental Protection Act 1990(**6**), section 2 of and Schedule 1 to the PPCA 1999 and sections 11, 12 and 13 of the WETA 2003.

**Title, commencement and application**

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Hazardous Waste (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2015.

(2) These Regulations come into force on 20 July 2015.

---

(**1**) Yn rhinwedd adran 59(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) ("DLlC 2006") caiff Gweinidogion Cymru arfer y pŵer a roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p.68) ("DCE 1972") mewn perthynas ag unrhyw fater, neu at unrhyw ddiben, os ydynt wedi eu dynodi mewn perthynas â'r mater hwnnw neu at y diben hwnnw. Mae paragraff 28(1) o Atodlen 11 i DLlC 2006 yn darparu bod dynodiadau a wnaed o dan adran 2(2) o DCE 1972 yn rhinwedd adran 29(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38) sydd mewn grym yn union cyn cychwyn y diddymiad o'r is-adran honno gan DLlC 2006 yn parhau i gael effaith ar ôl cychwyn y diddymiad hwnnw fel pe baent wedi eu gwneud yn rhinwedd adran 59(1) o DLlC 2006.

(**2**) 1972 p.68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p.51) a chan Ran 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p.7). Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 ac fe'i diwygiwyd gan Ran 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 a chan O.S. 2007/1388.

(**3**) O.S. 2005/850.

(**4**) O.S. 2010/1552.

(**5**) OJ Rhif L 226, 6.9.2000, t.3, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn 2014/955/EU (OJ Rhif L 370, 30.12.14, t.44).

(**6**) 1990 p.43.

(**1**) By virtue of section 59(2) of the Government of Wales Act 2006 (c.32) ("GOWA 2006") the Welsh Ministers may exercise the power conferred by section 2(2) of the European Communities Act 1972 (c.68) ("the ECA 1972") in relation to any matter, or for any purpose, if they have been designated in relation to that matter or for that purpose. Paragraph 28(1) of Schedule 11 to GOWA 2006 provides that designations made under section 2(2) of the ECA 1972 by virtue of section 29 (1) of the Government of Wales Act 1998 (c.38) which are in force immediately before the commencement of the repeal of that subsection by GOWA 2006 continue to have effect after the commencement of that repeal as if made by virtue of section 59(1) of GOWA 2006.

(**2**) 1972 c. 68. Section 2(2) was amended by section 27(1)(a) of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (c.51) and by Part 1 of the Schedule to the European Union (Amendment) Act 2008 (c.7). Paragraph 1A of Schedule 2 was inserted by section 28 of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 and was amended by Part 1 of the Schedule to the European Union (Amendment) Act 2008 and by S.I. 2007/1388.

(**3**) S.I. 2005/850.

(**4**) S.I. 2010/1552.

(**5**) OJ No L 226, 6.9.2000, p. 3, as last amended by Commission Decision 2014/955/EU (OJ No L 370, 30.12.14, p. 44).

(**6**) 1990 c. 43.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Rheoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli) yn y man priodol, mewnosoder—

"ystyr "y Rhestr Wastraffoedd" ("*the List of Wastes*") yw'r rhestr o wastraffoedd a sefydlir gan Benderfyniad y Comisiwn 2000/532/EC sy'n disodli Penderfyniad 94/3/EC sy'n sefydlu rhestr wastraffoedd yn unol ag Erthygl 1(a) o Gyfarwyddeb y Cyngor 75/442/EEC ar wastraff a Phenderfyniad y Cyngor 94/904/EC sy'n sefydlu rhestr o wastraffoedd peryglus yn unol ag Erthygl 1(4) o Gyfarwyddeb y Cyngor 91/689/EEC ar wastraff peryglus, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd;".

(3) Yn rheoliad 6(2)(b) (rhwymedigaeth ar awdurdodau gwaredu gwastraff i gadw cofnodion ac anfon dychweliadau), yn lle "Rheoliadau'r Rhestr Gwastraffoedd (Cymru) 2005" rhodder "y Rhestr Wastraffoedd".

(4) Yn rheoliad 7(1)(b) (rhwymedigaeth ar weithredwyr safleoedd tirlenwi i gadw cofnodion ac anfon dychweliadau), yn lle "Rheoliadau'r Rhestr Gwastraffoedd (Cymru) 2005" rhodder "y Rhestr Wastraffoaedd".

**Diwygio Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle rheoliad 2(1)(a)(**3**) (y Gyfarwyddeb Wastraff ac ystyr gwastraff), rhodder—

"(a) ystyr "y Gyfarwyddeb Wastraff ("*the Waste Directive*") yw Cyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar wastraff(**4**) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 1357/2014(**5**);" .

(**1**) O.S. 2004/1490 (Cy. 155) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/1820 (Cy. 148). Gwnaed diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**2**) O.S. 2005/1806 (Cy.138), yr offerynnau perthnasol sy'n diwygio yw O.S. 2011/971 (Cy.141) ac O.S. 2011/988.
(**3**) Amnewidiwyd rheoliad 2 gan O.S. 2011/971 (Cy.141).
(**4**) OJ Rhif L 312, 22.11.2008, t.3.
(**5**) OJ Rhif L 365 19.12.14, t.89.

(3) These Regulations apply in relation to Wales.

**Amendment of the Landfill Allowances Scheme (Wales) Regulations 2004**

**2.**—(1) The Landfill Allowances Scheme (Wales) Regulations 2004(**1**) are amended as follows.

(2) In regulation 2(1) (interpretation) in the appropriate place, insert—

""the List of Wastes" ("y Rhestr Wastraffoedd") means the list of wastes established by Commission Decision 2000/532/EC replacing Decision 94/3/EC establishing a list of wastes pursuant to Article 1(a) of Council Directive 75/442/EEC on waste and Council Decision 94/904/EC establishing a list of hazardous waste pursuant to Article 1(4) of Council Directive 91/689/EEC on hazardous waste, as amended from time to time;".

(3) In regulation 6(2)(b) (obligation for waste disposal authorities to keep records and make returns), for "list of hazardous waste pursuant to List of Waste (Wales) Regulations 2005 for, the waste" substitute "List of Wastes".

(4) In regulation 7(1)(b) (obligation for operators of landfills to keep records and make returns), for "List of Waste (Wales) Regulations 2005" substitute "List of Wastes".

**Amendment of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005**

**3.**—(1) The Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005(**2**) are amended as follows.

(2) For regulation 2(1)(a)(**3**) (the Waste Directive and the meaning of waste), substitute—

"(a) "the Waste Directive ("y Gyfarwyddeb Wastraff") means Directive 2008/98/EC of the European Parliament and of the Council on waste(**4**) as last amended by Commission Regulation (EU) No 1357/2014(**5**);" .

(**1**) S.I. 2004/1490 (W. 155) as amended by S.I. 2005/1820 (W. 148). There are other amendments not relevant to these Regulations.
(**2**) S.I. 2005/1806 (W. 138), relevant amending instruments are S.I. 2011/971 (W 141) and S.I. 2011/988.
(**3**) Regulation 2 was substituted by S.I. 2011/971 (W 141).
(**4**) OJ No L 312, 22.11.2008, p. 3.
(**5**) OJ No L 365 19.12.14, p. 89.

(3) Yn rheoliad 3(a)(**1**) (Atodiad III i'r Gyfarwyddeb Wastraff), hepgorer ", fel y gosodir yr Atodiad hwnnw yn Atodlen 3".

(4) Yn lle rheoliad 4(1)(**2**) (y Rhestr Wastraffoedd), rhodder—

> "(1) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y Rhestr Wastraffoedd" ("*the List of Wastes*") yw'r rhestr o wastraffoedd a sefydlir gan Benderfyniad y Comisiwn 2000/532/EC sy'n disodli Penderfyniad 94/3/EC sy'n sefydlu rhestr wastraffoedd yn unol ag Erthygl 1(a) o Gyfarwyddeb y Cyngor 75/442/EEC ar wastraff a Phenderfyniad y Cyngor 94/904/EC sy'n sefydlu rhestr o wastraffoedd peryglus yn unol ag Erthygl 1(4) o Gyfarwyddeb y Cyngor 91/689/EEC ar wastraff peryglus, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.".

(5) Yn rheoliad 6(b), yn lle "62A(1)" rhodder "62A(2)".

(6) Yn rheoliad 8—

(a) ym mharagraff (1)(b), yn lle "62A(1)" rhodder "62A(2)";

(b) ym mharagraff (2) (gwastraff penodol sydd i'w drin fel gwastraff peryglus), yn lle "Erthygl 3 o Benderfyniad y Rhestr Wastraffoedd" rhodder "Erthygl 7(2) o'r Gyfarwyddeb Wastraff".

(7) Yn rheoliad 9—

(a) ym mharagraff (1)(b), yn lle "62A(1)" rhodder "62A(2)";

(b) ym mharagraff (2), yn lle "Erthygl 3 o Benderfyniad y Rhestr Wastraffoedd" rhodder "Erthygl 7(3) o'r Gyfarwyddeb Wastraff".

(8) Hepgorer Atodlen 3(**3**) (Atodiad III i'r Gyfarwyddeb Wastraff).

(9) Yn lle Atodlen 8 (ffurf ar ateb y traddodai i'r cynhyrchydd neu'r deiliad) rhodder y testun sydd yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

**Diwygio Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010**

**4.**—(1) Mae Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010(**4**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(**1**) Amnewidiwyd rheoliad 3 gan O.S. 2011/971 (Cy.141).
(**2**) Fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2011/971 (Cy.141).
(**3**) Amnewidiwyd Atodlen 3 gan O.S. 2011/971 (Cy.141).
(**4**) O.S. 2010/675, y gwnaed diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(3) In regulation 3(a)(**1**) (Annex III to the Waste Directive), omit ", as that Annex is set out in Schedule 3".

(4) For regulation 4(1)(**2**) (the List of Wastes), substitute—

> "(1) In these Regulations, "the List of Wastes"("*y Rhestr Wastraffoedd*") means the list of wastes established by Commission Decision 2000/532/EC replacing Decision 94/3/EC establishing a list of wastes pursuant to Article 1(a) of Council Directive 75/442/EEC on waste and Council Decision 94/904/EC establishing a list of hazardous waste pursuant to Article 1(4) of Council Directive 91/689/EEC on hazardous waste, as amended from time to time.".

(5) In regulation 6(b), for "62A(1)" substitute "62A(2)".

(6) In regulation 8—

(a) in paragraph (1)(b), for "62A(1)" substitute "62A(2)";

(b) in paragraph (2) (specific waste to be treated as hazardous), for "Article 3 of the List of Wastes Decision" substitute "Article 7(2) of the Waste Directive".

(7) In regulation 9—

(a) in paragraph (1)(b), for "62A(1)" substitute "62A(2)";

(b) in paragraph (2), for "Article 3 of the List of Wastes Decision" substitute "Article 7(3) of the Waste Directive".

(8) Omit Schedule 3(**3**) (Annex III to the Waste Directive).

(9) For Schedule 8 (form of consignee's return to producer or holder) substitute the text in the Schedule to these Regulations.

**Amendment of the Environmental Permitting (England and Wales) Regulations 2010**

**4.**—(1) The Environmental Permitting (England and Wales) Regulations 2010(**4**) are amended as follows.

(**1**) Regulation 3 was substituted by S.I. 2011/971 (W. 141).
(**2**) As amended by S.I. 2011/971 (W. 141).
(**3**) Schedule 3 was Substituted by S.I. 2011/971 (W 141).
(**4**) S.I. 2010/675, of which there are amendments not relevant to these Regulations.

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli: cyffredinol) yn y diffiniad o "WEEE", yn lle "Article 3(b)" rhodder "Article 3(1)(e)".

(3) Yn adran 3 (dehongli: Cyfarwyddebau)—

(a) yn lle'r diffiniad o "the Waste Framework Directive" rhodder—

""the Waste Framework Directive" means Directive 2008/98/EC of the European Parliament and of the Council on Waste(**1**);";

(b) yn lle'r diffiniad o "the WEEE Directive" rhodder—

""the WEEE Directive" means Directive 2012/19/EU of the European Parliament and of the Council on waste electrical and electronic equipment (WEEE)(**2**).".

(4) Ym mharagraff 1 o bennod 1 o Ran 1 o Atodlen 3, (cyfleusterau esempt: disgrifiadau ac amodau)—

(a) yn is-baragraff (1), yn y man priodol, mewnosoder—

""List of Wastes" means the list of wastes established by Commission Decision 2000/532/EC replacing Decision 94/3/EC establishing a list of wastes pursuant to Article 1(a) of Council Directive 75/442/EEC on waste and Council Decision 94/904/EC establishing a list of hazardous waste pursuant to Article 1(4) of Council Directive 91/689/EEC on hazardous waste, as amended from time to time;";

(b) yn lle is-baragraff (2) rhodder—

"(2) In this Part, a six digit code used to refer to a waste is a reference to the waste specified by the six digit code in the List of Wastes except insofar as the waste in this Part in relation to such a code does not include some of the types of waste specified by the code in the List".

(5) Yn adran 2 o bennod 3 o ran 1 o Atodlen 3—

(a) ym mharagraff 1—

(i) yn is-baragraff (3)(e), yn lle "dangerous substance" rhodder "hazardous substance";

(ii) yn lle is-baragraff (5), rhodder—

(**1**) OJ Rhif L 312, 22.11.2008, t.3.
(**2**) OJ Rhif L 197, 24.7.2012, t.38.

(2) In regulation 2(1) (interpretation: general) in the definition of "WEEE", for "Article 3(b)" substitute "Article 3(1)(e)".

(3) In regulation 3 (interpretation: Directives)—

(a) for the definition of "the Waste Framework Directive" substitute—

""the Waste Framework Directive" means Directive 2008/98/EC of the European Parliament and of the Council on Waste(**1**);";

(b) for the definition of "the WEEE Directive" substitute—

""the WEEE Directive" means Directive 2012/19/EU of the European Parliament and of the Council on waste electrical and electronic equipment (WEEE)(**2**).".

(4) In paragraph 1 of chapter 1 of Part 1 of Schedule 3, (exempt facilities: descriptions and conditions)—

(a) in sub-paragraph (1) at the appropriate place insert—

""List of Wastes" means the list of wastes established by Commission Decision 2000/532/EC replacing Decision 94/3/EC establishing a list of wastes pursuant to Article 1(a) of Council Directive 75/442/EEC on waste and Council Decision 94/904/EC establishing a list of hazardous waste pursuant to Article 1(4) of Council Directive 91/689/EEC on hazardous waste, as amended from time to time;";

(b) for sub-paragraph (2) substitute—

"(2) In this Part, a six digit code used to refer to a waste is a reference to the waste specified by the six digit code in the List of Wastes except insofar as the waste in this Part in relation to such a code does not include some of the types of waste specified by the code in the List".

(5) In section 2 of chapter 3 of part 1 of Schedule 3—

(a) in paragraph 1—

(i) in sub-paragraph (3)(e), for "dangerous substance" substitute "hazardous substance";

(ii) for sub-paragraph (5), substitute—

(**1**) OJ No L 312, 22.11.2008, p. 3.
(**2**) OJ No L 197, 24.7.2012, p.38.

"(5) In this paragraph, "hazardous substance" means a substance classified as hazardous as a consequence of fulfilling the criteria laid down in parts 2 to 5 of Annex 1 to Regulation (EC) No 1272/2008 on classification, labelling and packaging of substances and mixtures(**1**).";

(b) ym mharagraff 11 is-baragraff (3)(c) yn lle "Annex III" rhodder "Annex VIII"; ac

(c) yn y tabl ym mharagraff 15(2), yn ail golofn y rhes sy'n dechrau "160504*", yn lle "dangerous substances", rhodder "hazardous substances".

(6) Yn adran 2 o bennod 5 o ran 1 o Atodlen 3, yn y tabl ym mharagraff 1(2), yn ail golofn y rhes sy'n dechrau "150202*", yn lle "dangerous substances" rhodder "hazardous substances".

(7) Yn Atodlen 12 (cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff)—

(a) ym mharagraff 2, is-baragraff (1), yn lle "Article 3(b)" rhodder "Article 3(1)(e)";

(b) ym mharagraff 3—

(i) yn is-baragraff (1), yn lle "Article 6(1) first paragraph and Article 6(3) and (4)" rhodder "Articles 8(1) to (3) and 9(3)";

(ii) yn lle is-baragraff (2) rhodder—

"(2) But when interpreting the WEEE Directive for the purposes of this paragraph, ignore the following words in Article 9(3)—

(a) "or the registration referred to in paragraphs 1 and 2"; and

(b) "and for the achievement of the recovery targets set out in Article 11".".

**Diwygio Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011**

**5.**—(1) Mae Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3(1) (dehongli), yn y man priodol, mewnosoder—

(**1**) OJ Rhif L 353, 31.12.2008, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 1297/2014 (OJ Rhif L 350, 6.12.14, t.1).

(**2**) O.S. 2011/988; yr offerynnau perthnasol sy'n diwygio yw O.S. 2013/755 a 2014/656.

"(5) In this paragraph, "hazardous substance" means a substance classified as hazardous as a consequence of fulfilling the criteria laid down in parts 2 to 5 of Annex 1 to Regulation (EC) No 1272/2008 on classification, labelling and packaging of substances and mixtures(**1**).";

(b) in paragraph 11 sub-paragraph (3)(c), for "Annex III" substitute "Annex VIII"; and

(c) in the table at paragraph 15(2), in the second column of the row beginning "160504*", for "dangerous substances", substitute "hazardous substances".

(6) In section 2 of chapter 5 of part 1 of Schedule 3, in the table at paragraph 1(2), in the second column of the row beginning "150202*", for "dangerous substances" substitute "hazardous substances".

(7) In Schedule 12 (waste electrical and electronic equipment)—

(a) in paragraph 2, sub-paragraph (1), for "Article 3(b)" substitute "Article 3(1)(e)";

(b) in paragraph 3—

(i) in sub-paragraph (1), for "Article 6(1) first paragraph and Article 6(3) and (4)" substitute "Articles 8(1) to (3) and 9(3)";

(ii) for sub-paragraph (2) substitute—

"(2) But when interpreting the WEEE Directive for the purposes of this paragraph, ignore the following words in Article 9(3)—

(a) "or the registration referred to in paragraphs 1 and 2"; and

(b) "and for the achievement of the recovery targets set out in Article 11".".

**Amendment of the Waste (England and Wales) Regulations 2011**

**5.**—(1) The Waste (England and Wales) Regulations 2011(**2**) are amended as follows.

(2) In regulation 3(1) (interpretation), in the appropriate place, insert—

(**1**) OJ No L 353, 31.12.2008, p.1, as last amended by Commission Regulation (EU) No 1297/2014 (OJ No L 350, 6.12.14, p.1).

(**2**) S.I. 2011/988; relevant amending instruments are S.I. 2013/755 and 2014/656.

““the List of Wastes” means the list of wastes established by Commission Decision 2000/532/EC replacing Decision 94/3/EC establishing a list of wastes pursuant to Article 1(a) of Council Directive 75/442/EEC on waste and Council Decision 94/904/EC establishing a list of hazardous waste pursuant to Article 1(4) of Council Directive 91/689/EEC on hazardous waste, as amended from time to time;”.

(3) Yn rheoliad 35(2)(a) (gwybodaeth am wastraff), hepgorer “(England) Regulations 2005 or, as the case may be, the List of Wastes (Wales) Regulations 2005”.

(4) Yn lle paragraff 11(3)(b) o Atodlen 1 (rhaglenni atal gwastraff a chynlluniau rheoli gwastraff), rhodder—

“(b) naturally occurring material falling within the description relating to code 17 05 04 in the List of Wastes.”.

**Diwygio Rheoliadau Gwastraff a Reolir (Cymru a Lloegr) 2012**

**6.** Ym mharagraff 1 o Atodlen 1 i Reoliadau Gwastraff a Reolir (Cymru a Lloegr) 2012(**1**)(gwastraff cartrefi, diwydiannol a masnachol), yn lle paragraff (c) o’r diffiniad o “offensive waste”, rhodder—

“(c) falls within the description relating to code 18 01 04, 18 02 03 or 20 01 99 in the list of wastes established by Commission Decision 2000/532/EC replacing Decision 94/3/EC establishing a list of wastes pursuant to Article 1(a) of Council Directive 75/442/EEC on waste and Council Decision 94/904/EC establishing a list of hazardous waste pursuant to Article 1(4) of Council Directive 91/689/EEC on hazardous waste, as amended from time to time;”.

**Dirymiadau**

**7.** Mae’r darpariaethau a ganlyn wedi eu dirymu—

(a) Rheoliadau’r Rhestr Wastraffoedd (Cymru) 2005(**2**);

(b) rheoliad 4 (diwygio Rheoliadau’r Rhestr Wastraffoedd (Cymru) 2005) o Reoliadau Gwastraff (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2011(**3**).

(**1**) O.S. 2012/811, y gwnaed diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

(**2**) O.S. 2005/1820 (Cy.148) fel y’i diwygiwyd gan O.S. 2011/971 (Cy.141).

(**3**) O.S. 2011/971 (Cy.141).

““the List of Wastes” means the list of wastes established by Commission Decision 2000/532/EC replacing Decision 94/3/EC establishing a list of wastes pursuant to Article 1(a) of Council Directive 75/442/EEC on waste and Council Decision 94/904/EC establishing a list of hazardous waste pursuant to Article 1(4) of Council Directive 91/689/EEC on hazardous waste, as amended from time to time;”.

(3) In regulation 35(2)(a) (waste information), omit “(England) Regulations 2005 or, as the case may be, the List of Wastes (Wales) Regulations 2005”.

(4) For paragraph 11(3)(b) of Schedule 1 (waste prevention programmes and waste management plans), substitute—

“(b) naturally occurring material falling within the description relating to code 17 05 04 in the List of Wastes.”.

**Amendment of the Controlled Waste (England and Wales) Regulations 2012**

**6.** In paragraph 1 of Schedule 1 to the Controlled Waste (England and Wales) Regulations 2012(**1**)(household, industrial and commercial waste), for paragraph (c) of the definition of “offensive waste”, substitute—

“(c) falls within the description relating to code 18 01 04, 18 02 03 or 20 01 99 in the list of wastes established by Commission Decision 2000/532/EC replacing Decision 94/3/EC establishing a list of wastes pursuant to Article 1(a) of Council Directive 75/442/EEC on waste and Council Decision 94/904/EC establishing a list of hazardous waste pursuant to Article 1(4) of Council Directive 91/689/EEC on hazardous waste, as amended from time to time;”.

**Revocations**

**7.** The following provisions are revoked—

(a) The List of Wastes (Wales) Regulations 2005(**2**);

(b) regulation 4 (amendment of the List of Wastes (Wales) Regulations 2005) of the Waste (Miscellaneous Provisions) (Wales) Regulations 2011(**3**).

(**1**) S.I. 2012/811, to which there are amendments not relevant to these Regulations.

(**2**) S.I. 2005/1820 (W. 148) as amended by S.I. 2011/971 (W. 141).

(**3**) S.I. 2011/971 (W. 141).

*Carl Sargeant*

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, un o Weinidogion Cymru

24 Mehefin 2015

Minister for Natural Resources, one of the Welsh Ministers

24 June 2015

SCHEDULE/ATODLEN Regulation/Rheoliad 3(9)

# "SCHEDULE 8/ATODLEN 8

Regulation/Rheoliad 54

## Form of consignee's return to producer or holder/Ffurf ateb y traddodai i'r cynhyrchydd neu'r deiliad

Hazardous waste producer returns form

Ffurflen atebion cynhyrchydd gwastraff peryglus

1. Consignee details/Manylion y traddodai

| Name of consignee/ Enw'r traddodi | Postcode/ Cod Post | Consignee hazardous waste i.d. code Cod adnabod gwastraff peryglus y traddodi | Date/Dyddiad(1) |
|---|---|---|---|
| | | | |

2. Waste return/ Atebion ynglŷn â gwastraff

| Consignment note number Rhif nodyn traddodi | Date received Dyddiad dod i law | Mode of transport Cyfrwng clido | Frequency of collection Amlder casglu(2) | Six digit code(s) Cod(au) chwe digid(3) | Hazard code(s) Cod(au) perygl(4) | Physical form Ffurf ffisegol(5) | Quantity (kg) Maint (kg) | Mode of disposal/ recovery Dull gwaredu/adfer(6) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |

(1)Date of submission of the return by the consignee/ Dyddiad cyflwyno'r ateb gan y traddodai.
(2)Where relevant/ Pan fo'n berthnasol.
(3)The six digit code(s) must correspond to the relevant code in the list of wastes. There may be more than one waste stream for each consignment note. All relevant six digit codes must be recorded/ Rhaid i'r cod(au) chwe digid gyfateb i'r cod perthnasol yn y rhestr o wastraffoedd. Gall fod mwy nag un ffrwd wastraff ar gyfer pob nodyn traddodi. Rhaid cofnodi pob cod chwe digid perthnasol..
(4)Hazard code: the hazard code must correspond to the list below. Each individual six digit code may have more than one hazard code. Each appropriate hazard code for a particular six digit code must be entered. Choose all of the appropriate hazard codes for the particular waste. If a waste contains a substance listed in Annex IV to Regulation (EC) No 850/2004 on persistent organic pollutants, and the concentration limit in that Annex is exceeded, the code "POP" must be recorded/ Cod perygl: rhaid i'r cod perygl gyfateb i'r rhestr isod. Gall pob cod chwe digid unigol gwmpasu mwy nag un cod perygl. Rhaid cofnodi pob cod perygl priodol ar gyfer unrhyw god chwe digid. Dewiswch bob un o'r codau perygl priodol ar gyfer gwastraff penodol. Os yw gwastraff yn cynnwys sylwedd a restrir yn Atodiad IV i Reoliad (EC) Rhif 850/2004 ar lygryddion organig parhaus, a'r crynodiad yn uwch na'r terfyn uchaf yn yr Atodiad hwnnw, rhaid cofnodi'r cod "POP".

| Hazard code/ Cod perygl | Description/ Disgrifiad |
|---|---|
| HP 1 | Explosive/ Ffrwydrol |
| HP 2 | Oxidising/ Ocsideiddiol |
| HP 3 | Flammable/ Fflamadwy |
| HP 4 | Irritant – skin irritation and eye damage/ Llidiog – yn achosi llid ar y croen a difrod i'r llygad |
| HP 5 | Specific Target Organ Toxicity (STOT)/ Aspiration Toxicity/ Gwenwyndra sy'n targedu organ benodol/ Gwenwyndra anadlol |
| HP 6 | Acute Toxicity/ Gwenwyndra aciwt/ |
| HP 7 | Carcinogenic/ Carsinogenig |
| HP 8 | Corrosive/ Cyrydol |
| HP 9 | Infectious/ Heintus |
| HP 10 | Toxic for reproduction/ Gwenwynig ar gyfer atgenhedlu |

| | |
|---|---|
| HP 11 | Mutagenic/ Mwtagenig |
| HP 12 | Release of an acute toxic gas/ Rhyddhau nwy gwenwynig aciwt |
| HP 13 | Sensitising/ Sensiteiddiol |
| HP 14 | Ecotoxic/ Ecowenwynig |
| HP 15 | Waste capable of exhibiting a hazardous property listed above not directly displayed by the original waste/ Gwastraff a allai amlygu priodwedd beryglus a restrir uchod, nas amlygwyd yn uniongyrchol gan y gwastraff gwreiddiol |
| POP | Persistent Organic Pollutant/ Llygrydd organig parhaus |

(5) Physical form: Choose one option from the following list as appropriate.
Ffurf ffisegol: Dewiswch un opsiwn fel y bo'n briodol o'r rhestr ganlynol

Gas/ Nwy
Liquid/ Hylif
Mixed/ Cymysgedd
Powder/ Powdr
Sludge/ Slwtsh
Solid/ Solid

[6] Mode of disposal/recovery or rejected: use the appropriate Dxx/Rxx code for the operation performed on the waste or insert REJ if the waste has been rejected.
Dull gwaredu/ adfer, neu gwrthodwyd: defnyddier y cod Dxx/Rxx priodol ar gyfer y gweithrediad a gyflawnwyd ar y gwastraff, neu mewnosoder REJ os gwrthodwyd y gwastraff.

| Code/ Cod | Disposal operation/ Gweithrediad gwaredu |
|---|---|
| D01 | Deposit into or onto land/ Dyddodi yn y tir neu arno |
| D02 | Land treatment/ Trin tir |
| D03 | Deep injection/Chwistrellu'n ddwfn |
| D04 | Surface impoundment/ Cronni ar yr wyneb |
| D05 | Specially engineered landfill/ Tirlenwi a beiriannwyd yn benodol |
| D06 | Release into a water body except seas/oceans/ Rhyddhau mewn corff dŵr ac eithrio moroedd/cefnforoedd |
| D07 | Release into seas/oceans including seabed insertion/ Rhyddhau mewn moroedd/cefnforoedd gan gynnwys mewnosod yng ngwely'r môr |
| D08 | Biological treatment not specified elsewhere which results in final compounds or mixtures which are disposed of by any of the operations numbered D01 to D12<br>Triniaeth fiolegol, nas pennir yn unman arall, sy'n creu cyfansoddion neu gymysgeddau terfynol a waredir drwy ddefnyddio unrhyw rai o'r gweithrediadau a rifwyd D01 i D12 |
| D09 | Physic-chemical treatment not specified elsewhere which results in final compounds or mixtures which are disposed of by any of the operations numbers D01 to D12<br>Triniaeth ffisegol-gemegol, nas pennir yn unman arall, sy'n creu cyfansoddion neu gymysgeddau terfynol a waredir gan ddefnyddio unrhyw rai o'r gweithrediadau a rifwyd D01 i D12 |
| D10 | Incineration on land/ Hylosgi ar y tir |
| D11 | Incineration at sea/ Hylosgi ar y môr |
| D12 | Permanent storage/ Storio'n barhaol |
| D13 | Blending or mixing prior to submission to any of the operations numbered D01 to D12<br>Blendio neu gymysgu cyn defnyddio unrhyw rai o'r gweithrediadau a rifwyd D01 i D12 |
| D14 | Repackaging prior to submission to any of the operations numbered D01 to D12/ Ailbecynnu cyn defnyddio unrhyw rai o'r gweithrediadau a rifwyd D01 i D12 |
| D15 | Storage pending any of the operations numbered D01 to D14 (excluding temporary storage, pending collection, on the site where it is produced).<br>Storio tra'n aros i gyflawni unrhyw rai o'r gweithrediadau a rifwyd D01 to D14 (ac eithrio storio dros dro, tra'n aros am ei gasglu o'r safle lle'i cynhyrchir). |
| | Recovery operation/ Gweithrediad adfer |
| R01 | Use principally as a fuel or other means to generate energy/<br>Defnyddio'n bennaf fel tanwydd neu ar gyfer dull arall o gynhyrchu ynni |
| R02 | Solvent reclamation/regeneration/<br>Adennill/atgynhyrchu toddyddion |
| R03 | Recycling/reclamation of organic substances which are not used as solvents (including composting and other biological transformation processes)/<br>Ailgylchu/adennill sylweddau anorganig nas defnyddir fel toddyddion (gan gynnwys compostio a phrosesau trawsnewid biolegol eraill) |
| R04 | Recycling/reclamation of metals and metal compounds/<br>Ailgylchu/adennill metelau a chyfansoddion metelau |
| R05 | Recycling/reclamation of other inorganic materials/<br>Ailgylchu/adennill deunyddiau anorganig eraill |
| R06 | Regeneration of acids or bases/ Atgynhyrchu asidau neu fasau |
| R07 | Recovery of components used for pollution abatement/<br>Adfer cydrannau a ddefnyddir ar gyfer atal llygredd |
| R08 | Recovery of components from catalysts/ Adfer cydrannau o gatalyddion |
| R09 | Oil refining or other re-uses of oil/ Puro olew, neu ddulliau eraill o ailddefnyddio olew |
| R10 | Land treatment resulting in benefit to agriculture or ecological treatment/<br>Trin tir mewn ffordd sy'n llesol i amaethyddiaeth, neu driniaeth ecolegol |
| R11 | Use of wastes obtained from any of the operations numbered R01 to R11/<br>Defnyddio gwastraffoedd a geir o unrhyw rai o'r gweithrediadau a rifwyd R01 to R10 |
| R12 | Exchange of wastes for submission to any of the operations numbered R01 to R11/<br>Cyfnewid gwastraffoedd er mwyn cyflawni arnynt unrhyw rai o'r gweithrediadau a rifwyd R01 to R10 |
| R13 | Storage of wastes pending any of the operations numbered R01 to R12 (excluding temporary storage, pending collection, on the site where it is produced)/<br>Storio gwastraffoedd tra'n aros i gyflawni unrhyw rai o'r gweithrediadau a rifwyd R01 to R12 (ac eithrio storio dros dro, tra'n aros am eu casglu o'r safle lle'u cynhyrchir) |

"

©ⓗHawlfraint y Goron 2015

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2015

Printed and Published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

**2015 Rhif 1417 (Cy. 141)**

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU**

Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2015

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

**2015 No. 1417 (W. 141)**

**ENVIRONMENTAL PROTECTION, WALES**

The Hazardous Waste (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2015

ISBN 978-0-348-11133-0

£6.00

W2336/06/15 ON